Ysgol Penrhyn-coch

Yn ystod y mis diwethaf treuliodd y plant wythnos yng Ngwersyll Ysgol Pentywyn a chafwyd amser ardderchog yno. Buont yn ffodus o gael tywydd da a phob un yn mwynhau'r golygfeydd hyfryd sydd yno. Profiad newydd i bob un ohonynt oedd cael tywod-hwylio a'r gwynt yn chwipio'r cynfas i yrru'r cwch rhyw ddeg milltir ar hugain yr awr ar hyd y traeth eang.

Ymwelwyd ag Eglwys Cymun a gweld yno'r Hen Feibl wedi ei glymu wrth gadwyn. Beibl oedd hwn a gyflwynwyd yn y lle cyntaf gan Madam Bevan - un o gefnogwyr mwyaf y Parch Griffith Jones - i'w merch-fedydd Frances Rees. Cyflwynodd hithau ef yn ei thro i'w chwaer yng nghyfraith Ann Evans gwraig Ficer Llanfihangel Genau'r-glyn, Gorffennaf 1810 pryd y rhoddwyd ef i Eglwys y Cymun.

Treuliwyd bore yn Nhalacharn a chael golwg ar yr eglwys arbennig o hardd, ag sydd yno. Ymwelwyd a bedd Dylan Thomas a rhaid wrth gwrs oedd cael cip olwg ar y "Boat House'.

Cafwyd amser diddorol yn myned o amgylch yr Amgueddfa'n Ninbych y Pysgod a chael cyfle wrth reswm i wneud ychydig siopa.

Aeth yr amser yn llawer rhy gyflym ond rhaid oedd dychwelyd i gael perfformio yng nghwmni plant eraill y cylch, yng nghyngerdd cyhoeddi Gwyl Gerdd Dant Cymru yn y Neuadd Fawr.

Ymwelodd dau gwmni o actorion a'r ysgol yn ddiweddar i gyflwyno eu Rhaglen Gaeaf. Pan ddaeth Cwmni Theatr Crwban atom i berfformio 'Y Deyrnas Hud' cawsom hefyd gwmni staff a phlant ysgol Trefeurig. 'Palas y Brenin' a gyflwynwyd gan Theatr West ar yr oedd hwn yn berfformiad hynod o gaboledig. Yn wir yr oedd y plant wrth eu bodd yn ymateb i'r ddau berfformiad a oedd yn llawn hwyl a sbri.